# Cofnodion Grŵp Cynghorwyr Craffu Rhanbarthol Partneriaeth

**a Gynhaliwyd o bell trwy Zoom**

**Dydd Llun, 24 Hydref 2022 am 10.00 am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) yn Llywyddu

**Cynghorwyr**

Y Cyng. Lyndon Jones (Cynullydd Panel Craffu ar Berfformiad Addysg Abertawe)
Y Cyng. Peter Black (Cadeirydd Pwyllgor Rhaglen Graffu Abertawe)
Y Cyng. Huw Murphy (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Ysgolion a Dysgu Sir Benfro)
Y Cyng. Pat Davies (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Ysgolion a Dysgu Sir Benfro)
Y Cyng. Carys Jones (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)
Y Cyng. Sue Allen (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ian Altman | Swyddog Arweiniol Partneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg (Abertawe) |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu (Abertawe) |
| Michelle Evans Thomas | Swyddog Craffu (Sir Gaerfyrddin) |
| Julie Owens | Swyddog Craffu (Sir Gaerfyrddin) |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Arweiniol

---

## 1 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Etholwyd y Cyng. Lyndon Jones (Abertawe) yn Gadeirydd a'r Cyng. Huw Murphy (Sir Benfro) yn Is-gadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth am gyfnod o ddwy flynedd.

## 2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Arweiniol Partneriaeth.

## 3 Datganiad o Fuddiant

Ni chafwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 4 Rôl Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth

Aeth y Swyddog Craffu cynorthwyol ati'n fyr i amlinellu rôl a chyfrifoldebau'r Grŵp Cynghorwyr Craffu, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl yng Nghytundeb Cyfreithiol Partneriaeth.

## 5 Trosolwg o rôl Partneriaeth a'r Cytundeb Cyfreithiol

Aeth Helen Morgan Rees, y Cyfarwyddwr Addysg ar gyfer Abertawe, a oedd yn dirprwyo ar gyfer y Cyfarwyddwr Arweiniol, Gareth Morgans, ati i amlinellu'r pwyntiau allweddol yng Nghytundeb Cyfreithiol Partneriaeth, a oedd yn cynnwys:
Atodlen 2 – Swyddogaethau'r bartneriaeth
Atodlen 3 i 6 – Cylch gorchwyl pob grŵp yn y bartneriaeth
Atodlen 9 – Cyllid ac ariannu
Atodlen 10 – Cynllunio Busnes Blynyddol

Rhoddodd Ian Altman, Swyddog Arweiniol Partneriaeth, gyflwyniad PowerPoint a oedd yn cwmpasu:

- swyddogaethau Partneriaeth
- y strwythurau staffio
- Cynllun Busnes 2022-23
- y grwpiau rhanddeiliaid a llywodraethu
- blaenoriaethau Awdurdodau Lleol
- chwe blaenoriaeth y cynllun busnes
- y wefan
- broceriaeth
- cysylltiadau clwstwr
- cynlluniau gweithredol
- cynllunio a thracio ariannol; a
- y gofrestr risgiau

Codwyd y materion canlynol gan y Grŵp Cynghorwyr:

- Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd; pwysleisiodd y Grŵp Cynghorwyr bwysigrwydd cymorth cyson da ar gyfer athrawon sy'n pontio i ddefnyddio'r Cwricwlwm Newydd. Cytunodd y Grŵp ei fod yn gyfnod cyffrous, ond bod yn rhaid i ni gefnogi'r rhai a all fod yn ei chael yn arbennig o heriol.
- Dywedodd y Swyddog Arweiniol ei bod yn adeg gyffrous ond hefyd heriol, a bod lefel gyson o gymorth ledled ysgolion a chlystyrau yn allweddol; byddai hyn yn cynnwys y cymorth unigol ar gyfer ysgolion lle bo angen. Dywedodd ei bod yn hanfodol i Partneriaeth ychwanegu gwerth.

- Roedd y Grŵp yn arbennig o falch o glywed bod gwaith tîm wrth wraidd y bartneriaeth newydd hon, a hefyd am y modd y mae hyn wedi llywio'r Cynllun Busnes wrth symud ymlaen.

**6 Amlinelliad o Agenda Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2022 ac unrhyw Adborth**

Rhoddodd Helen Morgan Rees ddiweddariad i'r Grŵp Cynghorwyr ar ganlyniadau Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2022. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cafodd y Cyng. Darren Price o Sir Gaerfyrddin ei ethol yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth am gyfnod o ddwy flynedd.
- Cytunwyd ar y cyllid blynyddol, gyda dau faes i gael eu hadolygu:
    - adolygu costau staffio yn dilyn yr adolygiad o gyflogau; ac
    - ystyried faint o ofod swyddfa sy'n ofynnol, gyda'r posibilrwydd o ddefnyddio adeiladau presennol awdurdodau lleol.
- Cytunwyd ar y Cynllun Busnes.
- Cytunwyd ar y proffil risgiau gyda'r cafeat bod y naratif o amgylch risgiau'r cwricwlwm newydd yn cael ei adolygu.

**7 Trafod a chytuno ar y Rhaglen Waith Craffu**

Cytunodd y Grŵp Cynghorwyr ar ei Raglen Waith hyd at fis Mehefin 2023 gyda'r ychwanegiadau canlynol:

1. Diweddariad ar y broses o weithredu'r cwricwlwm newydd a'r gofrestr risgiau i fod yn rhan o'r agendâu yn y dyfodol, a hynny ar ffurf eitemau gorchwyl gwylio.
2. Golwg manwl ar berfformiad pob un o chwe blaenoriaeth Partneriaeth. Dylid gwneud hyn mewn rhaglen dreigl, gan ddechrau yn y cyfarfod nesaf.
3. Arweinwyr unigol o Partneriaeth i gael eu gwahodd i ddiweddaru'r Grŵp ar eu swyddogaeth/meysydd fel sy'n berthnasol i'r diweddariad ar y blaenoriaethau allweddol ym mhwynt 2.

**8 Trafod y pwyntiau ar gyfer y llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth sy'n deillio o'r cyfarfod hwn**

Cytunodd y Grŵp Cynghorwyr i gynnwys ei farn ar y broses o weithredu'r cwricwlwm newydd a hefyd ar weithio mewn tîm yn ei lythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am

**Cadeirydd**

**1.**

**2.**

(A)

(B)